FOOT IN THE DOOR | TROED YN Y DRWS

# KEZIA HESSAM

**Hyfforddai Adran Gelf**



## Beth oedd eu taith trwy'r brosiect Troed yn y Drws?

- Wrth gychwyn ar y prosiect hwn, roedd gan Kezia radd mewn celfyddyd gain a rhywfaint o brofiad ar ffilm cyllideb isel yn Saudi Arabia, ond nid oedd erioed wedi gweithio yma yng Nghymru.
- Roedd ganddi'r sgiliau angenrheidiol a dim ond y cyflwyniad oedd ei angen arni.
- Roedd hi'n sefyll allan fel rhywun a oedd yn barod i gynnig ei hun a doedd arni ddim ofn gofyn cwestiynau.
- Cafodd ei chynnwys ar y rhestr fer fel ymgeisydd ar gyfer yr adran gelf a chafodd ei dewis gan *Sex Education* yn dilyn cyfweliad.
- Nid yw'n gyrru ac felly derbyniodd fwrsariaeth i helpu gyda thrafnidiaeth.
- Derbyniodd Kezia leoliad pythefnos o hyd lle cafodd brofiad o fywyd ar set cynhyrchiad teledu o'r radd flaenaf. Mae gan yr adran gelf lawer o feysydd a chafodd fod ar y set ac yn y swyddfa - gan ddefnyddio rhai o'r sgiliau gwaith graffeg yr oedd wedi'u datblygu.
- Yn ystod y sesiwn adborth, roedd Kezia yn ymddangos yn awyddus i wneud mwy o waith graffeg ac roedd yr amseru'n golygu y gallai ddechrau ar ail leoliad gyda Webber Designs, cwmni dylunio graffeg sy'n creu ffilmiau byr. Mae Rhys, sy'n berchen ar y cwmni, hefyd wedi bod yn athro ac mae eisoes wedi dysgu Kezia i fireinio ei sgiliau graffeg.
- Ei breuddwyd yw bod yn Ddylunydd Cynhyrchu neu Gyfarwyddwr Celf Wrth Gefn. Mae'r lleoliad hwn wedi ehangu ei sgiliau a'i chysylltiadau, gan ei helpu gyda'I cham nesaf. Gyda'r credydau hyn ar ei CV, mae hi bellach mewn sefyllfa dda i ymuno â Chynghrair Sgrin Cymru a cheisio am swyddi y maen nhw'n eu hysbysebu'n rheolaidd ar eu gwefan a'u cyfryngau cymdeithasol.

FOOT IN THE DOOR | TROED YN Y DRWS

## Pam wnaethon nhw ymwneud â Troed yn y Drws?

- Mae ganddi ddiddordeb mewn gyrfa yn yr adran gelf.
- Doedd hi erioed wedi gweld sut mae'r adran gelf yn gweithio ym maes teledu ar y radd flaenaf a gallai arddangos ei sgiliau i ddarpar gyflogwyr. employers.

## Pa effaith mae'r prosiect wedi'i chael ar yr unigolyn a'ch sefydliad chi?

Mae'r cyfle hwn wedi helpu i roi cnawd ar esgyrn CV Kezia, gan ei chyflwyno i bobl yn y diwydiant a'i harwain ar y 'camau nesaf' I gyrraedd lle mae hi eisiau bod.

## Beth wnaethon nhw ei ddysgu?

- Nid oedd Kezia erioed wedi gwisgo set na chreu cynlluniau gan ddefnyddio meddalwedd CAD. Roedd yn gwthio'r sgiliau a oedd ganddi eisoes.
- "Yn sicr, pan wnes i greu llyfr babi fel prop. Fi wnaeth greu'r darlun. Fe wnes i aros yn hirach er mwyn ei orffen - roedd pawb yn helpu er mwyn ei gael yn barod. Roedd pawb yn dweud bod y darlun yn wych."
- Mae hyn wedi rhoi'r cyflwyniadau angenrheidiol i Kezia mewn diwydiant sy'n anodd iawn mynd i mewn iddo os nad ydych chi'n adnabod unrhyw un.

**"Fe wnaeth y profiad yma ar gynhyrchiad fy ngalluogi i fentro i sawl maes yn yr adran gelf. Roeddwn i'n teimlo'n rhydd I fynegi fy nghreadigrwydd a'm syniadau ac roedd y criw wirioneddol yn eu croesawu'n fawr."**